CHILDREN'S LAUREATE WALES.

# Mae Llenyddiaeth Cymru yn chwilio am

# Children's Laureate Wales 2021-2023

## i danio dychymyg ac ysbrydoli plant Cymru

---

Yn dilyn llwyddiant y nofelydd arobryn Eloise Williams fel y Children's Laureate Wales cyntaf un rhwng 2019-2021, mae Llenyddiaeth Cymru yn falch o gyhoeddi ein bod ni'n chwilio am fardd i ymgymryd â'r sialens y tro hwn, i barhau i ysbrydoli pobl ifanc y genedl.

**Ydych chi'n fardd sydd wrth eich bodd yn gweithio gyda phlant? Ydych chi'n credu yng ngrym llenyddiaeth i ysbrydoli, grymuso, gwella a chyfoethogi bywydau - yn enwedig bywydau pobl ifanc? Ydych chi'n awyddus i ddathlu a chynrychioli diwylliant llenyddol Cymru ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol? Yna rydyn ni am glywed gennych chi!**

Mae Llenyddiaeth Cymru yn chwilio am y **Children's Laureate Wales** nesaf ac yn gwahodd ceisiadau gan feirdd, neu artistiaid sy'n perfformio barddoniaeth, talentog ac angerddol sydd â gweledigaeth gref ar gyfer y rôl hon. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o ystod o gefndiroedd a phrofiadau, a byddwn yn ystyried egin feirdd a beirdd profiadol fel ei gilydd. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n rhannu ein gwerthoedd o gydraddoldeb a chynrychiolaeth, ac a fydd yn llysgennad dros hawliau plant i fod yn greadigol, i fynegi eu hunain ac i gael eu lleisiau wedi'u clywed, ac wrth gwrs i gael hwyl gyda geiriau.

**Am y rôl**

- Bydd y Children's Laureate Wales nesaf yn cychwyn yn eu rôl o hydref 2021 ymlaen. Y dyddiad cau i ymgeisio yw dydd Llun 19 Gorffennaf.
- Dyma rôl dwy flynedd o hyd, tan hydref 2023.
- Y ffi ar gyfer y gwaith yw £8,000 y flwyddyn, ynghyd â threuliau, a bydd y cynllun gweithgaredd yn cyfateb i tua 20 diwrnod o weithgaredd pob blwyddyn.
- Nodwch, os gwelwch yn dda: gall natur a ffurf y dyddiau gweithdai amrywio. Ambell ddydd, byddwch yn cyflawni gweithdy mewn ysgol, ond ar ddyddiau eraill falle y byddwch chi'n gweithio o adref ar gerdd gomisiwn. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adrannau isod.
- Mae'r gwaith yn cynnwys cynnal gweithdai i blant a phobl ifanc, cyfansoddi cerddi comisiwn, ac amryw o weithgareddau eraill mewn ysgolion ac mewn lleoliadau amrywiol (e.e. gwyliau celfyddydol a chlybiau ieuenctid). Mae'n debygol iawn y bydd cynigion am gomisiynau pellach yn dod i law, a gwahoddiadau i arwain ymgyrchoedd a phrosiectau cenedlaethol eraill.
- Caiff y Children's Laurate Wales ei ystyried fel llysgennad ar gyfer plant, a llenyddiaeth plant, yn ogystal â bod yn eiriolwr dros faterion sydd yn bwysig i genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys iechyd meddwl, addysg a'r argyfwng hinsawdd. Mae'n debygol y bydd yna gyfleoedd ar gyfer comisiynau pellach gan bartneriaid allanol, a gwahoddiadau i arwain ymgyrchoedd cenedlaethol.
- Mae'r Children's Laureate Wales yn ymgysylltu â phlant ledled Cymru ac yn eu hysbrydoli i fod yn greadigol ac i fynegi eu hunain trwy farddoniaeth.
- Mae'r Children's Laureate Wales yn rôl gaiff ei dyfarnu i awdur o Gymru bob dwy flynedd.
- Mae'r Children's Laureate Wales yn brosiect Saesneg ei iaith sy'n gweithio ochr yn ochr â'i chwaer-brosiect Cymraeg, Bardd Plant Cymru. Bydd y Bardd Plant nesaf yn cychwyn yn yr hydref hefyd, a bydd y rôl yn para am ddwy flynedd.
- Y Children's Laureate Wales presennol yw **Eloise Williams**.

**Pam ein bod ni'n chwilio am Fardd?**

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweld llenyddiaeth fel ffurf gelf amrywiol, a'n nod yw dathlu diwylliant llenyddol Cymru yn ei holl ffurfiau. Yn dilyn penodi nofelydd fel y Children's Laureate Wales cyntaf, hoffem i farddoniaeth fod yn ganolbwynt ar gyfer tymor 2021-2023. Credwn fod barddoniaeth i blant yn hynod bwysig ac rydym am hyrwyddo a rhoi llwyfan i feirdd sydd eisiau gweithio yn y maes hwn. Ar gyfer tymhorau'r dyfodol, efallai y gallwn roi llwyfan i ragor o ffurfiau amrywiol.

**Sut mae'r prosiect yn gweithio?**

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Children's Laureate Wales newydd i ddyfeisio, datblygu a threfnu rhaglen o weithgareddau am y ddwy flynedd. Rydyn ni yma i gefnogi a hwyluso'r rôl, ac rydyn ni eisiau i'r bardd roi ei stamp ei hun ar y rôl.

Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gyda phlant ledled Cymru a gyda grwpiau o blant o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Bydd y Children's Laureate Wales hefyd yn llysgennad cadarnhaol i blant, gan hyrwyddo eu hawliau a'u diddordebau. Disgwylir i'r bardd gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus a chyfweliadau gyda'r cyfryngau o bryd i'w gilydd (darperir arweiniad). Ni fydd rhaglen waith swyddogol Children's Laureate Wales yn cynnwys ymweliadau ysgolion arferol ond yn canolbwyntio ar faes gweithgarwch ehangach; fodd

bynnag gall Llenyddiaeth Cymru gynghori'r bardd ar sut i drefnu ei (h)ymweliadau ei hun yn uniongyrchol. Disgwylir y bydd cryn dipyn o geisiadau am ymweliad yn dod i law wrth ysgolion, sydd yn gyfle i'r bardd i gael gwaith llawrydd pellach yn sgil y rôl.

Mae Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru (2019-22) ar gael yma. Rydym yn argymell eich bod yn darllen y cynllun hwn cyn anfon eich cais. Rydym yn chwilio am geisiadau sy'n cyflwyno ffyrdd creadigol ac arloesol o gyflawni nodau prosiect Children's Laureate Wales.

Rhaid i'r Children's Laureate Wales fod yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau gweinyddol a threfnu ardderchog er mwyn sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn effeithlon ac yn llwyddiannus. Disgwylir i'r bardd gydweithio'n agos gyda chydlynydd y prosiect a thîm cyfathrebu Llenyddiaeth Cymru yn rheolaidd, yn ogystal â phartneriaid eraill.

Fel Children's Laureate Wales, gall eich diwrnod gynnwys y canlynol:

- Cysylltu gydag aelod o staff Llenyddiaeth Cymru i drafod ymgyrch neu brosiect newydd yr hoffech chi ei redeg;
- Mynychu cyfarfodydd cynllunio ar gyfer gweithgaredd neu brosiect penodol;
- Ysgrifennu cerdd gomisiwn ar themâu neu bwnc penodol;
- Cynllunio a chyflawni gweithdy gydag ysgol neu grŵp o bobl ifanc;
- Beirniadu cystadleuaeth ysgrifennu;
- Siarad gyda'r wasg ynglŷn â'ch rôl fel Children's Laureate Wales;
- Cymryd rhan mewn digwyddiad digidol Awduron Llawryfog Rhyngwladol; neu
- Ysgrifennu a recordio araith neu ddarlith flynyddol ar bwnc neu ymgyrch yr ydych chi'n angerddol drosto.

Bydd gennych ddigonedd o amser i guradu eich cyfnod yn y rôl ac i ymgysylltu gyda nifer o gyfleoedd gwahanol i ysbrydoli plant Cymru. Byddwch yn cael eich paru gydag aelod o staff Llenyddiaeth Cymru a fydd yn gweithio'n agos gyda chi er mwyn cefnogi eich amserlen, cynlluniau a gweithgaredd ac i sicrhau bod y rôl yn hyblyg ac yn gallu gweithio o amgylch unrhyw gyfrifoldebau (e.e. cyflogaeth a/neu ddyletswyddau gofalu) sydd gennych.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan egin feirdd a beirdd profiadol. Gall egin feirdd ffynnu yn y rôl hon gan dderbyn ystod o gyfleoedd i ddatblygu eu proffil. Mae'r rôl yn darparu llwyfan i feithrin sgiliau drwy gynnal gweithgareddau creadigol gyda chyfranogwyr, ynghyd â datblygu enw da artistig a phroffesiynol.

Bydd ein Blaenoriaethau Tactegol yn flaenllaw yn ein gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac yn hynny o beth rydyn ni'n awyddus iawn i annog ceisiadau gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector llenyddiaeth, a gan y rhai sy'n profi gwahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran. Rydym yn gweithredu diwylliant gwrth-hiliaeth ac yn datblygu ein polisïau Diogelu a pholisïau Adnoddau Dynol i gynnwys prosesau arfer da wrth weithio gyda'r rheiny sydd wedi dioddef trawma gwahaniaethu, ac yn gweithio tuag at fynd i'r afael â chynil-ymosodiad yn y gweithle. Rydyn ni'n ymroddedig i fodloni gofynion mynediad - rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.

Bydd y Children's Laureate Wales yn:

- ymgysylltu â phlant ledled Cymru a'u hysbrydoli i fod yn greadigol ac i fynegi eu hunain drwy farddoniaeth;
- annog plant i gael hwyl gyda barddoniaeth;
- hyrwyddo hawl pob plentyn i gael eu straeon a'u lleisiau wedi'u clywed;

- bod yn llysgennad cadarnhaol i blant, gan hyrwyddo eu hawliau a'u diddordebau;
- helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu plant drwy greadigrwydd;
- hyrwyddo Cymreictod;
- cefnogi datblygiad y genhedlaeth nesaf o feirdd ac awduron ifanc;
- codi ymwybyddiaeth o farddoniaeth i blant yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol; ac
- ymgysylltu'n benodol â'r Cleientiaid a Dargedir gan Lenyddiaeth Cymru, fel y nodir yn ein Cynllun Strategol 2019-22, sef plant o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrif ethnig, plant o gefndiroedd incwm isel, neu blant ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol).

Isod mae enghraifft syml o sut y gallai rhaglen waith craidd Children's Laureate Wales edrych am flwyddyn:

| **Gweithgaredd** | **Nifer y dyddiau** |
|---|---|
| Prosiectau amrywiol (yn unol â blaenoriaethau Children's Laureate Wales a Llenyddiaeth Cymru) | 16 |
| Cerddi Comisiwn (4 cerdd) | 2 |
| Darlith neu gyhoeddiad blynyddol | 1 |
| Digwyddiad rhyngwladol uchel ei broffil | 1 |
| **Cyfanswm:** | **20** |

**Am Llenyddiaeth Cymru**

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Rydym yn elusen gofrestredig, ac rydym yn gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio yn Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Lleolir ein swyddfeydd yn Llanystumdwy ac yng Nghaerdydd. Ein noddwr yw Syr Philip Pullman.

Rydym yn hwyluso, noddi ac yn cyflawni rhaglen lenyddol ledled Cymru. Mae ein holl weithgareddau wedi eu strwythuro o dan dair colofn gweithgaredd. Bydd rhoi pwyslais ar y meysydd hyn yn sicrhau fod cyswllt clir rhwng ein gwaith a'n cenhadaeth, gan ein galluogi i ddefnyddio'n hadnoddau yn fwy effeithiol:

**Cyfranogi** – ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd llenyddol.

**Datblygu Awduron** – datblygu potensial creadigol a phroffesiynol egin awduron.

**Diwylliant Llenyddol Cymru** – dathlu ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru.

Mae'r tair colofn yn gorgyffwrdd, a rhan helaeth o'n gwaith yn llifo o un i'r llall. Ni chaiff prosiectau eu datblygu heb edrych ar y darlun cyfan. Byddant yn ategu ei gilydd, a bydd i'n holl weithgarwch dros y tair blynedd ddilyniant a datblygiad clir.

**Ein Blaenoriaethau**

Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a gweddnewid bywydau, a'r angen i gynnal gweithgareddau lle y byddant yn cael yr effaith mwyaf, rydym wedi nodi tair Blaenoriaeth Dactegol a gaiff eu cynnwys ym mhopeth y byddwn yn eu cyflawni, gan gynnwys ein gwaith-ar-y-cyd a'n gwaith hwyluso:

> **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** – trwy sicrhau cynrychiolaeth deg ar draws ein gweithgareddau a'n strwythurau mewnol, byddwn yn darparu llwyfannau ac anogaeth i leisiau sy'n cael eu tangynrychioli, a thrwy hynny'n meithrin diwylliant llenyddol sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes.
>
> **Iechyd a Llesiant** – trwy gefnogi a hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd y gall llenyddiaeth gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant y genedl, byddwn yn gwella bywydau pobl yng Nghymru.
>
> **Plant a Phobl Ifanc** – trwy gynyddu'r cyfleoedd i fwynhau ac ymwneud ag ysgrifennu creadigol a darllen er pleser, byddwn yn cyfrannu'n sylweddol at wella bywydau a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae Adroddiad Canol Tymor Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2019-22 ar gael i'w ddarllen yma.

**Meini Prawf a Thelerau**

Bydd y Children's Laureate Wales 2021-2023:

- yn gallu ymrwymo i o leiaf 20 diwrnod gwaith y flwyddyn i weithio fel Children's Laureate Wales; Os oes gennych chi unrhyw bryderon am eich argaeledd (e.e oherwydd cyflogaeth a/neu ddyletswyddau gofal) i gyflawni'r rôl, cysylltwch am sgwrs;
- yn gallu gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed;
- eisoes wedi ysgrifennu rhai cerddi yn Saesneg ar gyfer plant a/neu bobl ifanc; ac
- yn siaradwr cyhoeddus hyderus a deinamig.

Yn ogystal â'r rhaglen waith craidd, gall Llenyddiaeth Cymru gynnig comisiynau, preswyliadau a chyfleoedd pellach i'r bardd yn ystod y ddwy flynedd. Byddai unrhyw waith ychwanegol yn cael ei gytundebu ar wahân.

Bydd y rhaglen waith yn cael ei chadarnhau unwaith y bydd y penodiad wedi'i wneud, gan ystyried blaenoriaethau, syniadau ac arbenigeddau'r bardd.

Bydd Children's Laureate Wales yn derbyn ffi o £8,000 y flwyddyn, ynghyd â threuliau. Mae'r ffi yn cynnwys amser ar gyfer trafod, cynllunio a gweinyddu. Rhaid i'r bardd fod yn byw yng Nghymru.

**Sut i ymgeisio?**

I ymgeisio ar gyfer y rôl, anfonwch y canlynol:

1. Llythyr (dwy dudalen ar y mwyaf) **NEU** fideo hyd at 5 munud o hyd yn cynnwys:

   - Yr hyn hoffech chi ganolbwyntio arno neu ei gyflawni yn ystod eich dwy flynedd yn y rôl. Efallai yr hoffech chi feddwl am un brif thema i fod yn ganolbwynt i'ch gwaith, er enghraifft Black Lives Matter, iechyd meddwl plant, neu'r argyfwng hinsawdd.
   - Enghreifftiau o'r math o brosiectau yr hoffech eu datblygu. Bydd cyfle i drafod y rhain yn fanylach yn y cyfweliad.
   - Pam rydych chi'n dymuno cyflawni'r rôl?
   - Pam eich bod chi'n ymgeisydd addas ar gyfer y rôl?
   - Pa effaith fyddai'r rôl yn ei chael ar eich gyrfa?

2. Tair cerdd Saesneg yr ydych wedi'u hysgrifennu ar gyfer plant a/neu bobl ifanc.

3. CV yn nodi profiadau perthnasol.

4. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (ar gael yma).

Os ydych chi'n ymgeisio drwy fideo, anfonwch y fideo fel dolen Dropbox neu WeTransfer yn yr un e-bost â'ch CV a'ch Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Anfonwch eich ceisiadau, neu unrhyw gwestiynau at post@llenyddiaethcymru.org gyda Children's Laureate Wales a'ch enw yn y llinell pwnc.

**Anfonwch eich ceisiadau at Llenyddiaeth Cymru erbyn: 5.00 pm, dydd Llun 19 Gorffennaf 2021**

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Byddwn yn cyfweld rhestr fer i drafod eu ceisiadau mewn mwy o fanylder. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal dros Zoom yn ystod yr wythnos yn cychwyn 26 Gorffennaf.

Bydd y rôl yn cael ei chynnig yn amodol ar wiriad DBS boddhaol. Os nad oes gan y bardd wiriad DBS cyfredol, bydd Llenyddiaeth Cymru yn ei drefnu a'i ariannu.

Bydd y bardd yn cychwyn yn y rôl yn ystod hydref 2021.

**Ein polisi recriwtio**

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi elwa o fod yn rhan o Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i ehangu eu dull o weithio o ran recriwtio a datblygu doniau amrywiol. Rydyn ni wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail cryfderau posib. Os hoffech wneud cais am y swydd hon ond eich bod yn ansicr a oes gennych brofiad digonol, cysylltwch â ni i gael sgwrs anffurfiol.

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*

**Am ragor o wybodaeth ewch i www.llenyddiaethcymru.org.**